**Gwenda Thomas AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LF/GT/0161/13

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor
Y Pwyllgor Cyllid
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

19 Mawrth 2013

Annwyl Jocelyn

Diolch i chi am eich llythyr 25 Chwefror yn amgáu 25 o gwestiynau oddi wrth eich Pwyllgor yn deillio o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Rwyf yn croesawu diddordeb y Pwyllgor yn y Bil hwn a'r her sydd ynghlwm wrth eich cwestiynau.

Hoffwn ddechrau trwy ddweud bod y Bil hwn yn bur annhebyg i unrhyw Fil arall y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi craffu arno hyd yn hyn. Mae'n cydgrynhoi dros 40 o ddarnau o ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol yn dyddio yn ôl mor bell â 1948 yn ogystal â darparu'r fframwaith deddfwriaethol i helpu i roi *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* ar waith. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau i sicrhau ei fod yn 'berthnasol at y dyfodol' er mwyn i'r ddeddfwriaeth sylfaenol hon bara am flynyddoedd i ddod. Mae'r Bil yn cyflwyno newid a welir unwaith mewn cenhedlaeth yn unig ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae llawer o ffactorau wedi arwain at yr angen i'w gyflwyno ond un ohonynt yw'r angen i ddarparu ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor. Mae a wnelo hyn â gallu gwneud pethau'n wahanol yn ogystal â gwneud pethau o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Fel y gwyddoch,ymgynghorais y llynedd ar y cynigion polisi lefel uchel i'w datblygu yn ddeddfwriaeth. Yn ein hymgynghoriad gofynnwyd i ymatebwyr nodi unrhyw effeithiau y byddai fy nghynigion yn eu cael. Mae adroddiad yr ymgynghoriad yn cyfeirio at rai sylwadau a wnaed mewn perthynas â goblygiadau ariannol ac fe welwch fod fy ymateb i gwestiwn 25 yn ymdrin â hyn.

Mae'n bwysig cydnabod hefyd mai man cychwyn y cam nesaf mewn taith hir yw cyflwyno'r Bil hwn ac mai megis cychwyn yr ydym ar y daith honno mewn gwirionedd. Yn arbennig, bydd angen gwneud y ddeddfwriaeth eilaidd. Er na fwriedir i hyn ddigwydd o ddifrif tan 2014-15, rwyf wedi gofyn bod gwaith ar fwriad y Rheoliadau hyn yn dechrau yn awr er mwyn iddo redeg ochr yn ochr â thaith y Bil gan mai trwy gyfrwng Rheoliadau y caiff llawer o'r gwaith ariannol manwl ei wneud. Yn ogystal, rwyf wedi cyfeirio yn y Memorandwm Esboniadol at y cynllun gweithredu manwl y bydd angen ei ddatblygu. Fel rhan o'r broses hon eir ati i egluro rhagdybiaethau ynghylch costau.

Dylech nodi y byddaf yn cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 18 Ebrill ac i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 22 Ebrill.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Gwenda.Thomas@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc hefyd wedi fy ngwahodd i roi tystiolaeth ar 25 Ebrill. Mae gan y Pwyllgor hwn ddiddordeb yn yr elfennau ar y Bil sy'n ymwneud â phlant, yn enwedig mewn perthynas â model CLlLC/ADSS Cymru ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Rwyf felly yn anfon copi o'r llythyr hwn, ynghyd â'm hatebion i'ch cwestiynau, at Gadeiryddion pob un o'r Pwyllgorau hyn i helpu i lywio'r cwestiynau y byddant yn eu gofyn i mi. Mae angen ystyried yr ymatebion yr wyf wedi'u darparu i'ch cwestiynau yng nghyd-destun yr hyn yr wyf wedi'i ddweud yn y llythyr hwn.

Yn gywir,

Gwenda Thomas

**Gwenda Thomas AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services